

# EIRIOLYDDION PYSGOD GWYLLT CYMRU

## Taflen Ffeithiau

### YR EOG

### *Salmo salar*



**Disgrifiad** – Mae eogiaid ifanc yn treulio 1-3 blynedd yn byw mewn dŵr croyw cyn mudo i'r môr adeg y gwanwyn fel glasfaranod rhwng 12 a 24 cm o hyd. Tuedda eogiaid Cymreig dreulio 1-3 blynedd yn rhagor yn byw yn y môr gyda rhai yn mudo mor bell â'r Ynys Las cyn dychwelyd i silio yn afon eu mebyd gan bwysu hyd at 20kg. Wedi iddynt silio tua diwedd yr hydref mae'r rhan fwyaf ohonynt yn marw ond mae rhai yn llwyddo dychwelyd i'r môr i atgryfhau ac ail adrodd y broses y flwyddyn ganlynol. Mae angen amgylchedd da yn ein hafonydd, aberoedd ac yn y môr i boblogaethau llewyrchu. Mae'r eog yn rhywogaeth danghosol allweddol wrth fesur safon ein hafonydd a'r môr.



Eog newydd esgyn o'r môr  
Cemyw a hwyfell yn eu lliwiau silio

**Statws** – O ganlyniad i leihad yn llygredd trefol a ddiwydiannol a chael gwared a rhwystrau i fudo, mae'r eog i'w canfod yn y rhan fwyaf o afonydd Cymru gan gynnwys y rheini sy'n llifo trwy gymoedd glofaol hanesyddol y de. Serch hynny, tueddu i brinhau yw eu hanes ac erys niferoedd cenedlaethol yn bryderus o isel. Erbyn 2018 ofnir na fydd nifer ddigonol o eogiaid yn silio yn 90% o afonydd Cymru. Ymysg y rhain y mae'r Ddyfrdwy, y Gwy, y Wysg a'r Teifi – afonydd gyda phoblogaethau o eogiaid a ystyrir yn nodweddiadol ar raddfa Ewropeaidd ac o ganlyniad yn cael eu hamddiffyn fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

**Gwerth** – Yr eog yw'r pysgodyn fwyaf adnabyddus a gwerthfawr yn ein afonydd. Mae'n ddiwylliannol bwysig ac wedi ei amddiffyn dan gyfraith genedlaethol ac Ewropeaidd. Er fod rhwydo bellach yn anghynhaliadwy y mae yng Nghymru pysgodfeydd hamdden gwerthfawr sy'n cynnal oddeutu £20 miliwn mewn incwm yr aelwyd a thros 1000 o swyddi. Pe tae eu niferoedd yn uwch byddai mwy o enweirwyr â grym gwario uchel yn dod i Gymru a physgodfeydd hanesyddol yn codi mewn gwerth.

### Bygythiadau –

- Newidiadau yn yr amgylchedd morol
- Lefelau dŵr annaturiol a rhwystrau i fudo
- Llygredd a niwed i gynefinoedd afon drwy ddulliau amaethu gwael a choedwigaeth
- Ynni dŵr, morlynnoedd yn arbennig
- Rheolaeth gwan o bysgodfeydd

### Gwybodaeth ychwanegol –

Cewch hyd i wybodaeth sylfaenol ar yr eog ar we-fan yr Atlantic Salmon Trust

[atlanticsalmontrust.org](http://atlanticsalmontrust.org)

I ddarllen yr asesiad diweddaraf ar niferoedd eogiaid yng Nghymru cliciwch ar y linc canlynol neu ewch at we-fan Defra a chwiliwch am

[Salmon stocks and fisheries in England & Wales](#)

I ddarllen rhagor ar werth ariannol genweirio cliciwch ar y linc canlynol neu ewch at [www.gov.uk](http://www.gov.uk) a chwiliwch am

[Economic evaluation of inland fisheries](#)

### Gweithredoedd angenrheidiol –

- Darganfod pam fod gymaint o eogiaid yn marw yn y môr
- Diwygio arferion tynnu dŵr a chael gwared â rhwystrau i fudo
- Adfer gwlypdiroedd yr uwchdiroedd er mwyn lleihau llifogydd ac asideiddio nentydd
- Gweithredu rheolaeth effeithiol a chynnig cymhellion i sicrhau ymarferion amaethu da
- Datblygwyr a gweithredwyr ynni dŵr i warantu dylanwad di-nod ar boblogaethau
- Rheolaeth well o bysgodfeydd

### Eiriolydd yr eog

**Ken Skates AC**  
Dirprwy Weinidog  
Diwylliant, Chwaraeon  
a Thwristiaeth



# WILD FISH AMBASSADORS WALES

## Factsheet

### ATLANTIC SALMON

### *Salmo salar*



**Description** - Young Atlantic salmon spend 1 - 3 years in freshwater before migrating in the spring to the sea as smolts, about 12 to 24 cms long. Welsh salmon generally spend a further 1 - 3 years at sea, some migrating as far as Greenland, before returning to spawn in the river of their birth as adults weighing up to 20 kg. Following spawning in late autumn the majority of adults die although some succeed in returning to the sea to recover and repeat the process the following year. A good environment is needed in rivers, estuaries and at sea for populations to thrive. Salmon are a key indicator of the quality of our rivers and seas.

**Status** - Following reductions in urban and industrial pollution and the removal of obstructions to migration, salmon are now to be found in most Welsh rivers including those flowing through the historic mining valleys of the south. Nevertheless, the overall trend is one of decline and national stocks remain at historically low levels. By 2018 it is feared over 90 percent of Welsh rivers will have too few spawning salmon. These include rivers such as the Dee, Wye, Usk and Teifi whose salmon populations are acknowledged to be of European significance and are consequently accorded protection as Special Areas of Conservation.

#### Threats include –

- Changes in the marine environment
- Unnatural river flows and obstructions to migration
- Pollution and other damage to river habitats from poor farming and forestry
- Hydropower, notably tidal lagoons
- Poor regulation of fisheries

#### Action required –

- Discover why so many salmon are lost at sea
- Revise abstraction regimes and remove obstructions to migration
- Reinstate upland wetlands to reduce flooding and acidification of streams
- Implement effective regulation and offer incentives to achieve good farming practice
- Hydropower developers and operators to guarantee insignificant impact on salmon populations
- Better regulation of fisheries



Fresh run salmon and cock and hen fish in full breeding colours.

**Value** - Salmo the Leaper is the best known and most highly valued fish in our rivers. It is culturally significant and protected under national and European law. Though netting is now rarely sustainable, there are valuable recreational fisheries in Wales where angling for salmonids supports around £20 million in household incomes and more than 1000 jobs. Were stocks more abundant, more high-spending anglers would come to Wales and heritage fisheries would increase in value.

#### Further reading –

For basic information about Atlantic salmon visit the web site of the Atlantic Salmon Trust

[atlanticsalmontrust.org](http://atlanticsalmontrust.org)

To read the latest assessment of Welsh salmon stocks click on the following link or visit the Defra web site and search for

[Salmon stocks and fisheries in England & Wales](#)

To read more on the financial value of angling click on the following link or visit [www.gov.uk](http://www.gov.uk) and search for

[Economic evaluation of inland fisheries](#)

#### Ambassador for the Atlantic salmon

**Ken Skates AM**  
Deputy Minister for  
Culture, Sport  
and Tourism

